

Nodiadau Eglurhaol am Ardrethi Annomestig Cenedlaethol 2024/2025

Os yw eich bil yn nodi bod rhyddhad ardrethi wedi'i ddyfarnu, rhaid i chi ddweud wrth y Cyngor os ydych yn credu ei fod yn anghywir a hysbysu'r Cyngor o unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar eich hawl i gael rhyddhad neu'r swm. Rhaid gwneud hyn drwy ysgrifennu at y Cyngor o fewn 21 diwrnod o ddysgu gwybodaeth neu'r newid mewn amgylchiadau.

Beth yw Ardrethi Annomestig?

Caiff yr ardrethi annomestig a gesglir gan awdurdodau bilio eu talu i gronfa ganolog a'u hailddosbarthu i gynghorau sir a bwrdeistref sirol a chomisiynwyr heddlu a throseddu. Mae eich cyngor a'ch comisiynydd heddlu a throseddu yn defnyddio eu cyfrannau o incwm ardrethi a ailddosbarthwyd, ynghyd ag incwm gan eu talwyr treth gyngor, grant cynnal refeniw a ddarperir gan Weinidogion Cymru a symiau penodol eraill, i dalu am y gwasanaethau maent yn eu cynnig. Cewch ragor o wybodaeth am y system ardrethi annomestig, gan gynnwys pa fath o ryddhad sydd ar gael, yn

<https://businesswales.gov.wales/cy>

Gwerth Ardrethol

Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff gwerth ardrethol eiddo annomestig ei bennu gan swyddog priso sy'n annibynnol ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sef Asiantaeth Weithredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Mae'n llunio ac yn cadw rhestr lawn o werthoedd ardrethol pob eiddo annomestig yng Nghymru, sydd ar gael ar ei gwefan yn www.voa.gov.uk.

Fel arfer, caiff pob eiddo annomestig ei ailbriso bob 5 mlynedd. O 1 Ebrill 2023, mae gwerth ardrethol eiddo'n cynrychioli ei werth rhent ar y farchnad agored flynyddol fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2021. Ar gyfer eiddo cymysg sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig, mae'r gwerth ardrethol yn berthnasol i'r rhan annomestig yn unig. Caiff gwerthoedd *pob* eiddo o ran pa ardrethi sy'n daladwy i'ch awdurdod chi, eu dangos ar y rhestr ardrethu leol. Gellir gweld copi ohoni yn y Swyddfa Brisio, Tŷ Rhodfa, Tŷ Glas Road, Llanisien, Caerdydd CF4 5GR neu yng Nghyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holllwn, Y Barri CF63 4RU.

Ailbrisiad

Caiff pob gwerth ardrethol ei ailbriso'n gyffredinol er mwyn sicrhau bod yr ardrethi a delir gan unrhyw un talwr ardrethi yn adlewyrchu newid dros amser yng ngwerth ei eiddo o'i gymharu ag eraill. Mae hyn yn helpu i sicrhau tegwch yn y system ardrethu drwy

ddiweddaru prisiadau yn unol â newidiadau yn y farchnad. Daeth y rhestr sgorio bresennol i rym ar 1 Ebrill 2023 ac mae'n seiliedig ar werthoedd fel ar 1 Ebrill 2021. Yn y flwyddyn pan eir ati i ailbriso, ailbennir y lluosydd er mwyn ystyried newidiadau cyffredinol i'r cyfanswm gwerth ardrethol ac i sicrhau nad yw'r ailbrisiad yn codi unrhyw arian ychwanegol.

Rhyddhad ardrethi trosiannol

Mae Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022 yn darparu ar gyfer rhyddhad ardrethi trosiannol i fusnesau bach yr effeithir yn andwyol arnynt gan ailbrisiad hereditamentau annomestig sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2023. Bydd trethdalwr cymwys yn talu 33% o'u hatebolrwydd ychwanegol yn y flwyddyn gyntaf (2024-25) a 66% yn yr ail flwyddyn (2024-25), cyn cyrraedd eu hatebolrwydd llawn yn y drydedd flwyddyn (2025-26).

Mae rhagor o wybodaeth am ryddhad trosiannol ar gael drwy ymweld â'r ddolen isod:-

[Cyfraddau Annomestig – Rhyddhad Cyfraddau Trosiannol ar gyfer Ailbrisiad 2023 | Busnes Cymru \(llyw.cymru\)](#)

Addasu Gwerth Ardrethol

Gall y gwerth ardrethol newid os yw'r swyddog prasio'n credu bod amgylchiadau'r eiddo wedi newid. Dan rai amgylchiadau penodol, gall y talwr ardrethi (a phobl benodol eraill sydd â budd yn yr eiddo) gynnig newid mewn gwerth. Os na fydd y talwr ardrethi na'r Swyddog Prasio yn cytuno ar y prisiad o fewn 3 mis i gyflwyno'r cynnig, caiff y mater ei atgyfeirio gan y Swyddog Prasio fel apêl gan y cynigydd i Dribiwnlys Prasio Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am sut i gynnig newid o ran gwerth ardrethol ar gael gan swyddfeydd prasio.

Lluosydd Ardrethu Annomestig

Dyma'r gyfradd yn y bunt y caiff y gwerth ardrethol ei luosi ganddi i greu'r bil blynyddol i eiddo. Mae'r lluosydd, a bennir yn flynyddol gan Weinidogion Cymru, yr un fath ar gyfer Cymru gyfan. Ni cheir codi'r lluosydd mwy na chyfradd y cynnydd yn y mynegai prisiau manwerthu, oni bai mewn blwyddyn ailbriso. Mae'r lluosydd ar gyfer 2024/25 wedi'i osod ar **0.562**.

Cynigion ac Apeliadau

Mae gwybodaeth am yr amgylchiadau y gellid cynnig newid i werth ardrethol ar eu cyfer, a sut mae gwneud cynnig o'r fath, ar gael gan y swyddfa brisio leol a nodir uchod. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y trefniadau apelio gan Gyngor Bro Morgannwg, neu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (gwefan: www.voa.gov.uk). Mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn cynnig gwasanaeth apelio annibynnol am ddim sy'n ymdrin ag apeliadau ynghylch Ardrethi Annomestig a'r Dreth Gyngor. Gellir gweld y manylion cyswllt yma

[Tribiwnlys Prasio Cymru | Valuation Tribunal Wales](#)

Ardrethu eiddo heb ei feddiannu

Bydd perchnogion eiddo annomestig heb ei feddiannu o bosibl yn agored i ardrethi eiddo gwag sy'n costio 100% o'r rhwymedigaeth arferol. Mae atebolrwydd yn dechrau ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 3 mis neu, yn achos rhai eiddo diwydiannol penodol, ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 6 mis. Nid yw pob math o eiddo'n agored i ardrethi eiddo gwag.

Gostyngiadau elusennol a disgresiwn

Mae gan elusennau a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol hawl i gael gostyngiad o 80% ar ardrethi ar unrhyw eiddo annomestig lle:

(a) yn achos elusennau, mae'r eiddo'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion elusennol, neu

(b) yn achos clwb, mae'r clwb wedi cofrestru â Chyllid a Thollau ei Mawrhydi.

Mae gan awdurdodau bilio ddisgresiwn i ddileu'n rhannol neu'n gyfan gwbl yr 20% sy'n weddill o'r bil ar eiddo o'r fath, a gallant hefyd gyflwyno gostyngiad mewn perthynas ag eiddo sy'n cael ei feddiannu gan gyrff penodol sydd heb eu sefydlu neu nad ydynt yn cael eu cynnal er elw. I gael rhagor o wybodaeth am glybiau, dylech gysylltu â Chyllid a Thollau EM, Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 SZG (mae'r wefan yn www.hmrc.gov.uk).

Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yng Nghymru – 2024-25

Yn 2023-23, bydd Llywodraeth Cymru'n darparu gwerth £140m o gymorth ardrethi annomestig wedi'i dargedu i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch.

Bydd busnesau'n gymwys i gael 40% i ffwrdd o'u hatebolrwydd am y flwyddyn ariannol. Bydd swm y rhyddhad o dan gynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru yn uchafswm o £110,000 i bob busnes ar draws Cymru.

I gael rhyddhad ardrethi bydd angen cwblhau proses gais, a gwneir y ceisiadau drwy'r awdurdod lleol perthnasol. Wrth wneud cais am ryddhad ardrethi ar gyfer sawl lleoliad, rhaid cyflwyno cais i bob awdurdod lleol. Llwytho canllawiau i lawr:

<https://businesswales.gov.wales/cy/ardrethi-annomestig-rhyddhad-ardrethi-manwerthu-hamdden-a-lletygarwch-2024-25>

Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015(1) yn darparu ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach. Mae manylion llawn, gan gynnwys y meini prawf cymhwysedd, yr eithriadau, y gofynion gweithdrefnol a'r rhyddhad ardrethi perthnasol, ar gael gan yr awdurdod bilio. Os ydych yn credu y gallech fod yn gymwys i gael y rhyddhad hwn, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r

Uned Ardrethi Busnes ar 01446 709299 neu drwy e-bost yn nndr@valeofglamorgan.gov.uk. Yr uned hon sy'n gyfrifol am benderfynu ar eich cymhwysedd ar gyfer rhyddhad. Bydd safleoedd busnes sydd â gwerth ardrethol o hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100% a bydd y rhai sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn cael rhyddhad a fydd yn gostwng ar sail raddedig o 100% i ddim.

	Gwerth Ardrethol (£)	Rhyddhad (%)
Gwerth Ardrethol	0 to 6,000	100
Gwerth Ardrethol	6,001 to 12,000	Wedi'l radio o 100 i 0
Gofal Plant	Ddim yn berthnasol	Rhyddhad o 100% ar gyfer pob eiddo gofal plant cofrestredig
Swyddfa'r Post	0 to 9000	100
Swyddfa'r Post	9,001 to 12,000	50

Gwnaeth Llywodraeth Cymru sawl newid i'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar 1 Ebrill 2018.

Gofal Plant

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newid i'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach parhaol ar gyfer safleoedd Gofal Plant Cofrestredig. O 1 Ebrill 2019, bydd pob darparwr Gofal Plant Cofrestredig yn cael esemptiad o 100% ar eu Hardrethi Busnes tan 31 Mawrth 2025, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd yn cael ei werthuso i asesu ei effaith.

Rhyddhad Gorfodol / Disgresiwn

Ni fydd gan eiddo lle dyfernir Rhyddhad Gorfodol a Disgresiwn hawl i Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach o 1 Ebrill 2018.

Terfyn Dau Eiddo

O 1 Ebrill 2018, dim ond ar gyfer uchafswm o ddau eiddo (ac eithrio Gofal Plant a Swyddfeydd Post) y mae gan Dalwyr Ardrethi yr hawl i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach. Os yw'r talwr ardrethi yn atebol am Ardrethi Busnes am fwy na dau eiddo, mae'r dyfarniad yn seiliedig ar y ddau sydd â'r gwerthoedd tybiannol uchaf, h.y. naill ai'r gwerth ardrethol (os yw'n llai na £6,001 neu'n hafal i hynny) neu a gyfrifir gan y fformiwla briodol. Noder, os yw talwyr ardrethi yn atebol i dalu ardrethi annomestig am fwy na dau hereditament a ddangosir ar restr ardrethu annomestig leol sy'n bodloni'r amodau yn erthygl 7 (amodau gwerth ardrethol) yn unig, rhaid i'r talwr ardrethi roi hysbysiad o'r hereditamentau i'r awdurdod bilio ar gyfer y rhestr honno yn unol ag erthygl 13.

Os oes gan dalwr ardrethi unrhyw ymholiadau am ryddhad ardrethi neu daliadau yn y dyfodol, dylid gwneud y rhain i'r awdurdod lleol.

Nodiadau

1. Rhaid i bob eiddo busnes fod wedi'i feddiannu'n gyfan gwbl i fod yn gymwys

am ryddhad.

2. Mae eiddo nad yw'n gymwys i gael rhyddhad yn cynnwys rhai a feddiannir gan gyngor, awdurdod heddlu neu'r goron; y rhai sy'n cael eu meddiannu gan elusennau, clybiau cofrestredig, neu gyrff dielw y mae eu prif amcanion yn ddyngarol, yn grefyddol, yn ymwneud ag addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu'r celfyddydau cain; cytiau traeth; eiddo a ddefnyddir yn unig ar gyfer arddangos hysbysebion, parcio cerbydau modur, gwaith carthffosiaeth neu gyfarpar cyfathrebu electronig.

Talu eich bil

Mae eich bil ardrethi annomestig blynyddol yn dweud wrthy ch:

- ✓ Faint sy'n rhaid i chi ei dalu am y flwyddyn
- ✓ Sut mae'r swm hwnnw wedi cael ei gyfrifo
- ✓ Y dyddiadau pan fo taliadau'n ddyledus

Mae sawl ffordd y gallwch dalu eich ardrethi annomestig:



Cwblhewch gyfarwyddyd Debyd Uniongyrchol ar-lein yn

www.bromorgannwg.gov.uk a dewiswch 'Talu' ac yna 'Cofrestru ar gyfer debyd uniongyrchol'



Gellir gwneud taliadau drwy fynd â'ch bil treth gyngor neu'ch cerdyn sweipio presennol i'r lleoliadau canlynol:

- ✓ Swyddfa'r Post
- ✓ Siopau gyda'r arwydd PayPoint
- ✓ Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU



Llinell dalu awtomataidd 24 awr - 01446 736815
NEU yn ystod oriau swyddfa – 01446 709299



Ar-lein yn www.bromorgannwg.gov.uk a dewiswch 'Talu'



Dylid gwneud sieciau'n daladwy i 'Cyngor Bro Morgannwg' a'u hanfon at y Pennaeth Cyllid, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU



Talu'n uniongyrchol gan ddefnyddio bancio ar-lein neu gredyd giro banc. Manylion banc y Cyngor yw – Lloyds

Bank plc, 140B Heol Holltwn, y Barri
Cod Didoli – 309052
Rhif Cyfrif – 00006327

Sicrhewch eich bod yn dyfynnu eich rhif cyfrif Ardrethi Annomestig.

Os nad ydych yn talu

Os byddwch yn colli taliad misol neu os nad ydych yn ymateb i fil, bydd yr Adran Ardrethi Annomestig yn anfon hysbysiad atgoffa atoch a fydd yn rhoi saith diwrnod i chi dalu. Os na fyddwch yn talu o fewn saith diwrnod neu'n gwneud ymdrech i gysylltu â'r cyngor, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu y Ardrethi Annomestig flwyddyn gyfan yn lle hynny.

Os byddwch yn colli taliad pellach, anfonir ail hysbysiad atgoffa atoch. Dim ond dau hysbysiad atgoffa y byddwch yn eu cael mewn blwyddyn ariannol (1 Ebrill – 31 Mawrth). Os na fyddwch yn talu Ardrethi Annomestigy flwyddyn gyfan o fewn saith diwrnod o orfod gwneud hynny, gall y Cyngor gymryd camau cyfreithiol.

Galwadau cyfreithiol am daliadau

Gall yr Adran Ardrethi Annomestig ofyn i ynad am orchymyn dyled. Bydd costau'r cyngor ar gyfer trefnu hyn yn cael eu hychwanegu at yr arian sy'n ddyledus gennych. Os byddwch yn derbyn hysbysiad o orchymyn dyled, dylech gysylltu â'r Adran Ardrethi Annomestig ar unwaith.

Os nad ydych yn talu o hyd

Ar ôl i orchymyn dyled gael ei ganiatáu gan y Llys Ynadon, gall yr Adran Ardrethi Annomestig

- gyfarwyddo Asiant Gorfodi i gymryd eich eiddo i dalu am werth eich dyledion ardrethi annomestig (ychwanegir costau'r Asiant Gorfodi at y cyfanswm sy'n ddyledus gennych i'r cyngor)
- gyflwyno galwad statudol i gychwyn achos ansolfedd

Rhyddhad Caledi

Mae Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn rhoi pŵer disgrisiwn i Gyngor Bro Morgannwg leihau neu ddileu taliadau Ardrethi Annomestig drwy roi Rhyddhad Caledi.

Prif bwrpas dyfarnu Rhyddhad Ardrethi Annomestig yw rhoi cymorth byrdymor i fusnesau sy'n dioddef caledi annisgwyl, sy'n codi o amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y busnes ac sydd y tu allan i'r risgiau arferol sy'n gysylltiedig â rhedeg busnes o'r math hwnnw, i'r graddau y byddai ymarferoldeb y busnes yn cael ei fygwth pe na bai dyfarniad yn cael ei wneud.

Newid i e-filio di-bapur

Mae e-filio yn ffordd arall o dderbyn eich bil Ardrethi Annomestig. Yn hytrach na derbyn biliau papur byddwch yn gallu gweld eich biliau Ardrethi Annomestig ar-lein.

- ✓ Mae'n gyflymach, gan y byddwch yn derbyn e-bost yn dweud wrthych bod eich bil yn barod i'w weld

- ✓ Gall pob person sydd ar y bil gael ei gopi electronig ei hun
- ✓ Gallwch weld eich cyfrif ar-lein yn ddiogel ar unrhyw adeg
- ✓ Mae e-filio yn lleihau costau argraffu a phostio

I gofrestru, ewch i www.bromorgannwg.gov.uk, wedyn Ardrethi Busnes, wedyn E-Ddinesydd. Cwblhewch y ffurflen gofrestru ar-lein a, phan ddaw i law, bydd e-bost gweithredu'n cael ei anfon ymlaen i'r cyfeiriad e-bost a roddwyd.

Cysylltwch â ni:



01446 709299

nndr@valeofglamorgan.gov.uk

Ardrethi Busnes Annomestig
Adran Gyllid
BLWCH SP 49
Y BARRI
CF63 4YN

Rhaid i chi roi gwybod i Adran Ardrethi Busnes Cyngor Bro Morgannwg os ydych yn derbyn Rhyddhad Ardrethi Gorfodol neu Ddisgresiwn a bod eich amgylchiadau'n newid. Rhaid i'r Awdurdod hwn hefyd roi rhybudd o 12 mis i chi am unrhyw newid yn y rhyddhad ardrethi sydd eisoes wedi'i ganiatáu.